

SANKEY, JOHN (1866 - 1948; BARWN SANKEY, 1929; IS -IARLL Sankey, o Moreton, 1932), gŵr y gyfraith

Enw: John Sankey
Dyddiad geni: 1866
Dyddiad marw: 1948
Rhiant: Catalina Sankey
Rhiant: Thomas Sankey
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gŵr y gyfraith
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn Moreton, swydd Gaerloyw, 26 Hydref 1866, yn fab i Thomas a Catalina Sankey. Cafodd ei addysg yn ysgol Lancing, Sussex, ac yng ngholeg Iesu, Rhydychen, a galwyd ef yn fargyfreithiwr yn 1892. Daeth yn K.C. yn 1909, yn farnwr yr Uchel Lys yn 1914, ac yn un o arglwyddi'r Llys Apêl yn 1928. Yn 1929 fe'i gwnaed yn Arglwydd Ganghellor yn y Llywodraeth Lafur, a daliodd y swydd hon hyd 1935. Bu'n gadeirydd y comisiwn ar y diwydiant glo, 1919, ac yn aelod o'r gynhadledd ar ddyfodol yr India, a bu galw am ei wasanaeth ar lu o bwyllgorau a chomisiynau, yr addysgol, yn gyfansoddiadol, ac yn grefyddol (gweler y rhestr yn *Who was Who*, 1941-51). Yr oedd yn eglwyswr teyrngar ac ymroddedig, a bu ganddo gyfran helaeth yn llunio cyfansoddiad a threfniadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Etholwyd ef yn gymrodor (er anrhydedd) o'i hen goleg yn Rhydychen, a derbyniodd radd Doethur yn y Cyfreithiau, er anrhydedd, gan Brifysgol Cymru yn 1929. Derbyniodd hefyd raddau er anrhydedd gan Brifysgolion Rhydychen, Caer-grawnt, a Bryste. Bu farw'n ddi-briod yn Llundain, 8 Chwefror 1948, a'i gladdu yn Moreton.

Bu'n gweithio fel bargyfreithiwr ieuanc yng Nghaerdydd, a daeth i'r amlwg mewn achosion dan y Ddeddf lawn-dâl i Weithwyr. Enillodd glod mawr am wneuthur ei waith yn gryno ac esbonio pethau dyrys mewn modd eglur. Pan godwyd ef i'r Fainc, gwelwyd ynddo ddynoliaeth eang a mawr sêl dros urddas y gyfraith; pan ddaeth yn ddiweddarach yn Arglwydd Ganghellor gwnaeth gyfraniad nodedig i'r bywyd gwleidyddol drwy ei urddas personol, ei hunan-ddisgyblaeth, a'i gyfeillgarwch. Ond yn anad unpheth cofir amdano fel Eglwyswr teyrngar a Christian diffuant.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Who was who?, 1941-50

Hansard, *Parliamentary Debates - House of Lords* (Tŷ'r Arglwyddi) 11 Chwefror 1948

The Times, 9 Chwefror 1948

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [sankey-john-sankey-viscount-1866-1948](#)

Wikidata: [Q6256664](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1970). SANKEY, JOHN (1866 - 1948; BARWN SANKEY, 1929; IS -IARLL Sankey, o Moreton, 1932), gŵr y gyfraith. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-SANK-JOH-1866>

frannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government